CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni **Nos Lun 13eg o Ragfyr 2021 am 6.30y.h.** trwy Gyfrwng TEAMS.

PRESENNOL :	Cyng. Margaret Thomas	-	Cadeirydd
	Cyng. Ieuan G. Davies	-	Cyng. Arwel Môn Hughes
	Cyng. Victor Hughes	-	Cyng. Gwenan Ll. Evans
	Cyng. Terry Jones	-	Cyng. Eleri Lloyd Burns
	Cyng. John Lee	-	Cyng. J. Egryn Lewis
	Cyng. J. Huw Owen	-	Cyng. Richard Parry
	Cyng. Non W. Parry.		

HEFYD YN BRESENNOL :	Cyng. Bob Parry	-	Cynghorydd Sir
	Mr. H. Rhys Parry	-	Clerc
	Ms. Linda Powell	-	Cymhorthydd Clerigol
	PCSO Lee Monk	-	Heddlu Gogledd Cymru.

Cadeirydd yn croesawu'r Aelodau i'r Cyfarfod

21/132 **YMDDIHEURIADAU :** Cyng. Henry D. Jones
Cyng. Jamie Jones, Cyng. Christine Roberts
Cyng. Dylan W. Rees – Cynghorydd Sir.

21/133 **DATGANIAD O DDIDDORDEB :** Dim.

21/134 **HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

PCSO Lee Monk yn ymddiheuro fod dim Cynrychiolydd o'r Heddlu wedi mynychu'r Cyfarfodydd Llawn yn ddiweddar ac yn esbonio fod hyn oherwydd pwysa gwaith y PCSO's. Cadeirydd yn tynnu sylw'r Swyddog at ymddygiad gwrthgymdeithasol ar safle Maes Chwarae Lon Las/Lawnt Bowlio, sydd yn mynd ymlaen gyda'r nos. PCSO Monk am edrych i gael patrol nos yn yr ardal yma o hyn ymlaen ac anfon adborth yn ôl i'r Cyngor Tref. Cadeirydd yn awgrymu, yn y flwyddyn newydd, i ail-edrych ar leoliad y Camerâu CCTV, a'r mannau sydd eu hangen fwyaf. **Derbyn.**
Cadeirydd yn diolch i PCSO Lee Monk am ei fewnbwn, PCSO yn gofyn a oes unrhyw fater arall i'w drafod ac yn datgan ceisio gwneud mwy o ymdrech i gael presenoldeb yr Heddlu yn y Cyfarfodydd Llawn yn fisol.

21/135 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN 08.11.2021**

Cadeirydd yn adrodd fod yr Aelodau wedi cael cyfle o flaen llaw i edrych trwy'r Cofnodion uchod. Clerc yn cadarnhau fod dim cwestiynau wedi eu derbyn trwy'r Swyddfa.
Yn dilyn yr uchod, Cyng. Richard Parry yn Cynnig a Cyng. Non W.Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

21/136 **I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 08.11.2021**

Cadeirydd yn datgan, os bu unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu drwy'r Swyddfa o flaen llaw, i arbed amser yn ystod y cysylltiad TEAMS.

PARHAD 21/136

Cadeirydd yn adrodd fod Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod i drafod materion gyda'r Clerc. Clerc wedi ymateb i ymholiadau Cyng. Lewis.

21/137 I DDERBYN ARGYMHELLION IS-BWYLLGOR Y FYNWENT A MEYSYDD CHWARAE 22.11.2021

1 Cyng. Eleri Ll. Burns yn Cynnig a Cyng. J Egryn Lewis yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.
Yn dilyn yr uchod, Cyng. Lewis yn tynnu sylw, oherwydd fydd dim Cyfarfod Llawn hyd nes y 17eg o Ionawr 2022, fod Aelodau Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae yn derbyn unrhyw ddiweddariad ar sefyllfa'r Fynwent Newydd, fel mae'n digwydd.
Eitem 21/107.1 o Gofnodion 08.11.2021 – Adroddiad y Clerc – Mynwent Newydd
Cyng. Lewis yn tynnu sylw at yr Eitem uchod, ac yn holi ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf o osod tir Penlan a chynnwys Cynllun Busnes y Cyngor Tref. Clerc yn rhoi gwybod fod y Cynllun Busnes ar gael i'w archwilio yn y Swyddfa - Dim Trafodaeth.

2 Ymweliad Safle Penlan 04.12.2021
Cyng. J. Egryn Lewis yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio fod Cofnod o'r Ymweliad Safle yn gywir. **PENDERFYNWYD** derbyn yr argymell fod Mr. Gwyn Hughes, Asiant/ Cydlynydd y Prosiect, yn ysgrifennu at Adran Priffyrdd, Cyngor Sir Ynys Môn, i ofyn os ydi'r fynedfa ar gyfer Safle B yn cydymffurfio gyda gofynion y Cyngor Sir, cyn mynd ymlaen i gyflwyno Cais "Pre-Application" Cynllunio.

21/138 I DDERBYN ARGYMHELLION IS-BWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL 29.11.2021
Cyng. J. Huw Owen yn Cynnig a Cyng. Non W. Parry yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.
Cerbyd y Cyngor Tref - Eitem 21/129.2 o'r Cofnodion uchod – Clerc yn rhoi gwybod i'r Aelodau fod Cerbyd y Cyngor Tref wedi methu MOT, gyda llawer o ddiffygion ac wedi cyrraedd diwedd ei oes. Clerc yn arwain yr Aelodau trwy'r costau a'r opsiynau i gael cerbyd arall ar gyfer gwaith y Tirmon. Yn y cyfamser, Cyng. Victor Hughes yn cynnig rhoi benthyg cerbyd gwaith ei Gwmni i'r Tirmon, pan yn gyfleus, er mwyn hwyluso eu gwaith. Cadeirydd a'r Clerc yn ddiolchgar i Cyng. Hughes am y cynnig yma. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** bod rhaid cael cerbyd ar gyfer gwaith y Tirmon a chytunwyd i ofyn i'r Clerc edrych i mewn i'r opsiynau er mwyn symud ymlaen mor fuan ag y bo modd i brynu cerbyd. **Derbyn.**

21/139 CYNLLUNIO

1 I DDERBYN PENDERFYNIADAU PWYLLGOR CYNLLUNIO AR YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO TACHWEDD 2021 – 23.11.2021 & 07.12.2021
PENDERFYNWYD derbyn y Cofnodion fel rhai cywir. Clerc yn cadarnhau fod sylwadau'r Aelodau wedi eu hanfon ymlaen at Adran Cynllunio'r Cyngor Sir.

2 **Pwyllgor Cynllunio – I Ethol Aelodau ychwanegol** : Cyng. Non W. Parry a Cyng. Gwenan Ll. Evans yn cynnig rhoi eu henwau ymlaen ar gyfer aelodaeth y Pwyllgor Cynllunio. Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, Cyng. Ieuan G. Davies yn Eilio. **PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorwyr uchod fel rhan o'r Pwyllgor Cynllunio.

21/140 I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBION GAN Y MAER

1 Agoriad Swyddogol – Oriel, Stryd yr Eglwys – 26.11.2021 – Cadeirydd a Cyng. Non W. Parry wedi mynychu'r uchod, lle bu Rhun ap Iorwerth agor y Fenter yn swyddogol.

2 Noson "Tree of Lights" Clwb Rotary – 10.12.2021 – Cadeirydd yn bresennol ac wedi

PARHAD 21/140

rhoi Cyfraniad tuag at Elusen Hosbis Dewi Sant - dim wedi cael gwybod beth oedd y cyfanswm i'r Elusen ar ddiwedd y noson.

3 **Arddangosfa Ffenestr Nadolig –** Cyng. Non Parry yn enwi'r enillydd, fel a ganlyn :
1af Siop Cain
Cydradd 2il : Siop Elenna, Stryd yr Eglwys & Siop Gwallt HBA, Stryd Fawr
3ydd Siop Emberwood, Stryd yr Eglwys.
Cyng. Margaret Thomas a Cyng. Non W. Parry i gyflwyno Placiau Gwobr i'r uchod yn ystod y dyddiau nesaf.

4 **Bagiau Tywod -** Cadeirydd yn diolch i Cyng. Non W. Parry, fel Warden Llifogydd, am gyd-weithio i ddosbarthu Bagiau Tywod yn ystod llifogydd diweddar yn y dref. Cyng. Parry yn ymateb fod anhawster traffig yn y dref wrth gario'r Bagiau trwm a bydd y mater yma yn cael ei drafod yng Nghyfarfod nesaf o'r Grŵp Llifogydd.

21/141 **MATERION YN CODI GAN AELODAU**

Cyng. Terry Jones – Gosod Meinciau ar hyd Lon Las Cefni, Llangefni – Cyng. Jones yn awyddus i gael gosod meinciau ar y safle uchod – I'w drafod ymhellach o dan Eitem 21/142.5 o'r Rhaglen.

21/142 **ADRODDIAD Y CLERC**

Diweddariad gan y Clerc ar y canlynol :

1 **Mynwent Newydd - Tir Penlan -** Cynnig o £3,300 am osod y caeau fel tir pori wedi ei dderbyn am y cyfnod hyd at 31ain o Fawrth 2022. Materion eraill yn ymwneud a'r Fynwent Newydd wedi eu trafod o dan Eitem 21/137 o'r Rhaglen. **Derbyn.**

2 **Cloc y Dref -** Clerc yn ymwybodol fod y Cloc ddim yn gweithio ar hyn o bryd. Aelodau wedi derbyn copi o lythyr hunanesboniadol a dderbyniwyd gan Gwmni lleol yn cadarnhau'r gwaith sydd wedi ei glustnodi ar gyfer atgyweirio'r Cloc. Bydd y gwaith wedi ei gwblhau yn ystod yr wythnosau nesaf. **Derbyn.**

3 **Myfyrwyr Coleg Menai -** Cais wedi ei dderbyn gan Ddarlithiwr Coleg Menai yn holi am waith cymhorthi allanol i Fyfyrwyr y Coleg. Clerc a'r Darlithiwr wedi cyfathrebu a bu'r Myfyrwyr yn cychwyn yn ystod mis Ionawr 2022. **Derbyn.**

4 **Diweddariad ar y canlynol :**

(a) **Trosglwyddo Safle'r Orsedd –** Disgwyl Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr arwyddo'r Cytundeb i gwblhau'r trosglwyddiad. Yn y cyfamser wedi derbyn costau ar gyfer torri drain ar hyd yr ymylon ac yn disgwyl i Gontractwyr y Bwrdd Iechyd orffen torri coed cyn symud ymlaen gyda'r gwaith yma. **Derbyn.**

(b) **Trosglwyddo Cae Criced –** Cyfreithiwr y Cyngor Tref yn adrodd fod yr Ymddiriedolwyr yn parhau i ddisgwyl i'w Cyfreithiwr gwblhau'r Trosglwyddiad.

(c) **Melin y Graig -** Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn ddim wedi dod yn ôl atom gyda mwy o wybodaeth. Dim Trafodaeth.

5 **Cyngor Sir Ynys Môn - Teithio Llesol -** E-bost hunanesboniadol wedi ei dderbyn gan Swyddogion Adran Trafnidiaeth Strategol a Chynaliadwy, Cyngor Sir Ynys Môn, yn amlinellu cynlluniau Teithio Llesol yn ardal Llangefni.
Clerc yn rhoi gwybod i'r Aelodau fod dau Swyddog o'r Cyngor Sir wedi ymweld â'r Swyddfa i rannu'r cynigion uchod ac wedi cadarnhau fod y gyllideb wedi ei sicrhau ar gyfer canol y flwyddyn ariannol 2022 gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Teithio Lesol. Clerc yn arwain yr Aelodau trwy'r gwelliannau, fel a ganlyn :

- **Lon Las Cefni -** Wedi cytuno i osod dwy fainc yn unol â chais Cyng. Terry Jones. Cyng. Victor Hughes yn awgrymu gosod Meinciau plastig wedi ail-gylchu, i arbed gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol; Cyng. John Lee yn Eilio cynnig Cyng. Victor Hughes. **Derbyn.**

PARHAD 21/142

- **Canol y Dref tuag at y Clwb Rygbi**
- **B5111 : Lawnt Bowlio i Lon Newydd/Ystâd Maes Hyfryd**
- **Ystyried cais y Cyngor Tref i wella llwybr cyhoeddus ar gae Safle'r Orsedd**
- **Gwneud ymholiadau i osod mwy o Gamerâu CCTV**

Cadeirydd yn diolch i'r Clerc am ei fewnbwn ac yn gofyn iddo gadarnhau cefnogaeth y Cyngor Tref i'r cynlluniau. Cyng. J. E. Lewis yn cytuno gyda rhan fwyaf o'r cynlluniau ac yn awgrymu fod y Cadeirydd a Chadeirydd Is-bwyllgor Y Fynwent a Meysydd Chwarae yn cael mewnbwn i'r uchod a rhannu syniadau.

PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc gadarnhau i Swyddogion y Cyngor Sir fod y Cyngor Tref yn gefnogol i'r Prosiectau Teithio Llesol.

21/143 ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL

1 **Un Llais Cymru – Hyfforddiant :** Adborth gan Cyng. Eleri Lloyd Burns yn dilyn mynychu'r Hyfforddiant canlynol :

08.11.2021 - Local Government Finance (Module 6) : Wedi mwynhau ac wedi cael mewnwelediad o weithio gydag arian cyhoeddus, ynghyd a'r system Awdit Archwiliad Mewnol a'r Arolygiad Blynyddol.

18.11.2021 – Understanding the Law (Module 4) : Materion sylfaenol wedi eu trafod.

Cadeirydd yn diolch i Cyng. Burns am ei adborth.

2 **Cyngor Coleg Llangefni 18.11.2021 : Taith o Gwmpas y Safle –** (E-bost 17.11.2021) GOHIRIO

Cyng. Parry yn adrodd ei fod yn disgwyl rhybudd arall o'r dyddiad i ail-drefnu'r uchod.

3 **Ysgol Corn Hir – Llywodraethwyr :** Cais wedi ei dderbyn gan Bennaeth Ysgol Corn Hir (E-bost yn atodol i Becyn y Rhaglen Llawn i'r Aelodau ddarllen). Cyng. J. Egryn Lewis yn awgrymu i'r Aelodau ail-ystyried ac ail-drafod y Cais yn y Cyfarfod Llawn nesaf.

Derbyn.

4 **Fforwm Cyswllt Cynghorau Thref a Chymuned - Cofnodion Cyfarfod 29.09.2021 -** Er Gwybodaeth. Dim Trafodaeth.

21/144 CYLLID

1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Tachwedd 2021**

Cadeirydd yn adrodd, os bu unrhyw gwestiynau yn codi o'r Fantolen Ariannol uchod, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod, i arbed amser yn ystod y cysylltiad TEAMS.

Clerc yn adrodd fod Cyng. J. Egryn Lewis wedi ymweld â'r Swyddfa yn gofyn am eglurhad ynglŷn â'r canlynol :

(a) Biliau Dwr - Clerc wedi esbonio eu bod ar gyfer tri safle, sef Y Fynwent, Y Llys a Phafiliwn Lawnt Bowlio;

(b) Nwyddau Nadolig – Clerc yn esbonio fod angen nwyddau trydanol ar gyfer y Coed Nadolig.

Yn dilyn yr uchod Cyng. Eleri Ll. Burns yn Cynnig a Cyng. J. Huw Owen yn Eilio derbyn Mantolen Ariannol Tachwedd 2021. **PENDERFYNWYD** derbyn Mantolen Ariannol Mis Tachwedd 2021.

PARHAD 21/144

2 **PRAECEPT 2022-2023**

Cyng. Non Parry, Cadeirydd Is-bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol yn arwain yr Aelodau drwy ffigyrau'r Pracecpt ar gyfer 2022-2023 Band D, ac yn tynnu sylw at gostau ychwanegol i'r Cyngor Tref.

Yn dilyn yr uchod Cyng. Terry Jones yn Cynnig a Cyng. Arwel Môn Hughes yn Eilio i godi ffigwr Praecept 2022-2023 i £225,104.00. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod ac anfon y ffigwr yma ymlaen i Gyngor Sir Ynys Môn pan ofynnir amdano yn fuan flwyddyn nesaf.

21/145 **ADRODDIAD MISOL CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Yn absenoldeb Cyng. Dylan W. Rees, Cynghorydd Sir, Bob Parry yn adrodd ar y canlynol:

- Ffigyrau Covid-19 wedi codi yn sylweddol;
- Ysgolion yn cau dros gyfnod y Nadolig Dydd Gwener 17.12.2021 a gobeithio medru ail-agor yn y flwyddyn newydd;
- Disgwyl Rheolau newydd Covid-19 gan y Llywodraeth yng Nghaerdydd penwythnos nesaf;
- Treth 2022 debygol i fod yn debyg i llynedd - I'w gadarnhau;
- Gwariant ar welliant i'r Priffyrdd;
- System newydd wagio biniau Gwastraff Gwyrdd mewn lle ar gyfer 2022/dim newid i'r costau;
- Arian gwerthiant safle Cwrs Golff wedi cael eu clustnodi ar gyfer gwella cyfleusterau Canolfan Hamdden Plas Arthur;
- Etholiadau Mis Mai nesaf - Canolbarth Môn yn cael eu rhannu yn dair Ward/rhan.

Safle Plas Penlan - Cyng. John Lee yn holi Cyng. Parry ynglŷn â chynlluniau'r Cyngor Sir ar gyfer dyfodol y safle yma. Cyng. Parry yn ymateb ei fod yn fater cyfreithiol a bydd pethau yn symud ymlaen yn ystod 2022/2023.

Ystâd Parc y Coed - Cyng. John Lee yn holi Cyng. Parry os oes ardal wyrdd i blant chwarae wedi ei amlinellu ar gyfer yr Ystâd uchod. Cyng. Parry yn datgan fod ganddo ddim gwybodaeth ynglŷn ag ymholiad Cyng. Lee.

Cyng. Parry yn rhoi gwybod i'r Aelodau ei fod yn bwriadu ymddeol flwyddyn nesaf. Y Cadeirydd yn diolch yn fawr iawn i Cyng. Parry am ymuno yn y Cyfarfod heno ac am ei waith caled dros y blynyddoedd fel Cynghorydd Sir.

21/146 **GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD**

Gohebiaeth :

1 **Adroddiad Adolygu Drafft-Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn - Tachwedd 2021 –** Unigolion i ymateb.

2 **Llywodraeth Cymru Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – 24.11.2021**

3 **Cyfoeth Naturiol Cymru – Cynllun Adnoddau Coedwigoedd – 15.11.2021**

4 **Cyngor Sir Ynys Môn - Gorchymyn(Gwahardd Traffig Trwodd Dros Dro) (Ystâd Ty'n Coed) - 15.11.2021**

Yr uchod wedi eu hanfon allan er gwybodaeth i'r Aelodau.

21/147 **GOHEBIAETH : ER GWYBODAETH**

Materion wedi eu hanfon i'r Aelodau trwy e-bost yn ystod Mis Tachwedd 2021

1 **Un Llais Cymru : Derbyn**

2 **Materion Eraill : Derbyn**

21/148 **I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y MAER**

1 **Tir Penlan -** Cyng. Victor Hughes yn rhoi gwybod i'r Aelodau o'i gais i dderbyn manylion benthyciad y PWLB ar gyfer pryniant y tir uchod, a bod y wybodaeth, erbyn hyn, wedi eu rhannu gyda'r Aelodau i gyd. Clerc yn cadarnhau fod y benthyciad yn "Fixed Rate Loan".

Cyng. Hughes yn tynnu sylw'r Aelodau at gostau o ddatblygu'r fynwent newydd ac yn rhagweld bydd angen mwy o fenthyciad yn y dyfodol agos. Oherwydd hyn, Cyng. Hughes yn arwain yr Aelodau trwy'r opsiwn o werthu rhan o'r tir i ryddhau arian. Cyng. Hughes yn adrodd fod amodau'r benthyciad ddim yn glir a bydd angen eglurhad o'r hawl i ystyried y cais uchod.

Cyng. J. Egryn Lewis yn datgan fod dim digon o arian wedi ei glustnodi yn Gyllideb 2022 ar gyfer symud ymlaen i ddatblygu'r Fynwent Newydd a bod yn bwysig trafod hyn yn bellach.

Yn dilyn trafodaeth, Clerc yn adrodd fod opsiynau ar gael i sicrhau benthyciad i ddatblygu'r Fynwent Newydd, ond ar hyn o bryd doedd ddim wedi edrych yn ddwfn ar hyn. Clerc yn cadarnhau fod £20,000 wrth gefn wedi ei amlinellu ar gyfer costau'r Fynwent Newydd.

Cyng. Richard Parry yn awgrymu ysgrifennu at PWLB am fwy o wybodaeth yn ymwneud a "Premature Payment of Loan" ac adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Llawn nesaf.

Cyng. Margaret Thomas yn awgrymu mynd yn ôl at Gyngor Sir Ynys Môn i ofyn am gymorth.

PENDERFYNWYD yn unol â'r cais uchod, gofyn i'r Clerc holi gyda'r benthycwyr os gall y Cyngor Tref werthu rhan o dir Penlan, o dan amodau'r benthyciad, a dod a'r wybodaeth yn ôl i'r Cyfarfod Llawn nesaf yn Mis Ionawr.

21/149 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Nos Lun 17eg o Ionawr 2022.**

Cadeirydd yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r Aelodau a Staff.